



Y Ganolfan  
Dysgu Cymraeg  
Genedlaethol —  
National Centre  
for Learning Welsh



# Adroddiad Blynnyddol

## Annual Report

### 2018 / 19

# Cynnwys

**04**

Amdanom ni

**10**

Rhagair

**20**

**Amcan Strategol 1:**  
Datblygu rhaglen  
arloesol o gyrsiau

**38**

**Amcan Strategol 4:**  
Codi proffil y sector

**55**

Cysylltwch â ni

**06**

Darparwyr cwrs y  
Ganolfan

**16**

Dysgwyr a thiwtoriaid  
ysbrydoledig

**24**

**Amcan Strategol 2:**  
Cynlluniau i ddysgwyr  
ddefnyddio eu Cymraeg

**42**

**Amcan Strategol 5:**  
Sefydlu a chynnal  
gweithdrefnau

**55**

Margo Schmidt, Ceramic Tutor at Cardiff Met, with her students.  
Margo followed a Learn Welsh course with the Centre's 'Work Welsh' scheme.

**08**

Croeso

**18**

Lefelau dysgu'r sector  
Dysgu Cymraeg

**34**

**Amcan Strategol 3:**  
Rhwydwaith o  
ddarparwyr cwrs

**52**

Ystadegau Dysgu  
Cymraeg

**05**

About us

**11**

Foreword

**21**

**Strategic Objective 1:**  
Develop an innovative  
programme of courses

**39**

**Strategic Objective 4:**  
Raise the sector's profile

**55**

Contact us

**07**

The Centre's course  
providers

**17**

Inspiring learners  
and tutors

**25**

**Strategic Objective 2:**  
Schemes for learners  
to use their Welsh

**43**

**Strategic Objective 5:**  
Establish and maintain  
support procedures

**09**

Welcome

**19**

Learning levels in the  
Learn Welsh sector

**35**

**Strategic Objective 3:**  
Network of course  
providers

**53**

Learn Welsh  
Statistics

## Dysgu Cymraeg Learing Welsh



### Prosiectau sectorol:

Iechyd, Gofal, Addysg Bellach, Addysg Uwch, Addysg a Gofal Blynnyddoedd Cynnar

### Sectoral projects:

Health, Care, Further Education, Higher Education, Early Years Education and Care



11 darparwr cwrs  
course providers

1,500 o gyrsiau  
courses

### Un Ganolfan

- yn dysgu  
Cymraeg  
ledled  
Cymru



One  
Centre  
- teaching  
Welsh  
throughout  
Wales



95%

o ddysgwyr  
yn mwynhau  
dysgu Cymraeg  
of learners  
enjoy learning  
Welsh



85% of learners  
feel more confident  
speaking Welsh after  
following a course

500 tiwtor  
tutors



Un wefan -  
[dysgucymraeg.cymru](http://dysgucymraeg.cymru)

- cewch ddod o hyd i gwrs  
unrhwy le yng Nghymru

One website -  
[learnwelsh.cymru](http://learnwelsh.cymru)

- where you can find a  
course anywhere in Wales

Cyrsiau ar  
5 lefel  
o rugladr

Courses at  
5 levels  
of fluency

85% o ddysgwyr  
yn teimlo'n fwy  
hyderus wrth siarad  
Cymraeg ar ôl  
dilys cwrs

Dysgu  
Digidol  
Digital  
Learning

1,000  
o adnoddau didigidol, am ddim  
free, digital resources



## Amdanom ni

Croeso i Adroddiad Blynnyddol  
2018-2019 y Ganolfan Dysgu  
Cymraeg Genedlaethol.

### Cefndir

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sy'n  
gyfrifol am y sector Dysgu Cymraeg i oedolion.  
Mae'r Ganolfan yn gorff hyd braich wedi'i ariannu  
gan Lywodraeth Cymru a'i gartrefu gan Brifysgol  
Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Y deilliannau craidd a osodwyd i'r Ganolfan gan  
y Lywodraeth yw:

- ▶ Bod yn sefydliad gweledol sy'n gosod  
cyfeiriad strategol cenedlaethol i'r maes.
- ▶ Cynnig arweiniad i ddarparwyr Cymraeg  
i Oedolion.
- ▶ Codi safonau addysgu a dysgu Cymraeg  
i Oedolion.
- ▶ Datblygu cwricwlwm cenedlaethol difyr,  
priodol ac o safon a chynhyrchu adnoddau  
sy'n addas i bob mathau o ddysgwyr.

### Cynllun Strategol

Mae Cynllun Strategol 2016-2020 y Ganolfan yn  
cynnwys pum prif amcan:

1. Datblygu rhaglen arloesol o gyrsiau atyniadol  
ac addas i ddysgwyr gan wneud defnydd llawn  
o'r dechnoleg ddiweddaraf.
2. Datblygu cynlluniau arloesol i sicrhau cyfleoedd  
a chyd-destunau i'r dysgwyr ddefnyddio eu  
Cymraeg yn hyderus.
3. Sefydlu rhwydwaith o ddarparwyr cwrs er  
mwyn cynnig gwasanaeth o ragoriaeth.
4. Codi proffil y maes a chynyddu'r niferoedd  
sy'n dechrau cyrsiau ac sy'n parhau i ddysgu'r  
Gymraeg.
5. Sefydlu a chynnal gweithdrefnau i gefnogi'r  
gwasanaeth.

Mae'r Adroddiad Blynnyddol yn adrodd ar gynnydd  
yn erbyn yr amcanion hynny.

Mae'r gwaith o lunio Cynllun Strategol y cyfnod  
nesaf, o 2020 ymlaen, wedi dechrau. Bydd  
ymgyngori cyhoeddus ar y cynllun newydd  
hwn maes o law.

## About us

Welcome to the National Centre  
for Learning Welsh Annual  
Report 2018-2019.

### Background

The National Centre for Learning Welsh is  
responsible for all aspects of Learn Welsh for  
adults. The Centre is an arm's length body  
funded by Welsh Government and hosted by  
University of Wales Trinity Saint David.

The core outcomes set for the Centre by the  
Welsh Government are to:

- ▶ Be a visible institution setting a national  
strategic direction for the sector.
- ▶ Provide leadership for the Centre's providers.
- ▶ Raise standards in teaching and learning  
Welsh for Adults.
- ▶ Develop a high quality, appropriate, engaging  
national curriculum and produce resources  
suitable for a range of learners at all levels.

### Strategic Plan

The Centre's Strategic Plan for the period  
2016-2020 includes five key objectives:

1. Develop an innovative programme of attractive  
and suitable courses for learners making full use  
of the latest technology.
2. Develop innovative schemes to secure  
opportunities and contexts where learners can  
use their Welsh with confidence.
3. Establish a network of course providers to offer  
a service of excellence.
4. Raise the profile of the sector and increase  
the numbers who start courses and continue  
to learn Welsh.
5. Establish and maintain service support  
procedures.

The Annual Report reports on progress against  
these objectives.

The work of compiling the Strategic Plan for the  
next phase, from 2020 onwards, has begun. There  
will be public consultation on this new plan in  
due course.

# Darparwyr cwrs y Ganolfan

Mae'r Ganolfan yn gweithio gydag 11 darparwr cwrs, sy'n cynnal cyrsiau ar ei rhan ym mhob cwr o Gymru.

Brand Lleol	Sefydliad	Ardaloedd Llywodraeth Leol
Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin	Prifysgol Bangor	Gwynedd, Môn, Conwy
Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain	Coleg Cambria/ Popeth Cymraeg	Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam
Dysgu Cymraeg Ceredigion - Powys - Sir Gâr	Prifysgol Aberystwyth	Ceredigion, Powys, Sir Gâr (rhan benodol o'r ddarpariaeth)
Dysgu Cymraeg Sir Gâr	Cyngor Sir Gâr	Sir Gâr (rhan benodol o'r ddarpariaeth)
Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe	Prifysgol Abertawe	Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot
Dysgu Cymraeg Sir Benfro	Cyngor Sir Benfro	Sir Benfro
Dysgu Cymraeg Gwent	Coleg Gwent	Mynwy, Casnewydd, Blaenau Gwent, Torfaen, Caerffili
Dysgu Cymraeg Y Fro	Cyngor Bro Morgannwg	Bro Morgannwg
Dysgu Cymraeg Caerdydd	Prifysgol Caerdydd	Caerdydd
Dysgu Cymraeg Morgannwg	Prifysgol De Cymru	Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr
Dysgu Cymraeg Nant Gwrtheyrn	Canolfan Nant Gwrtheyrn	Cenedlaethol

# The Centre's course providers

The Centre works with 11 course providers, who deliver courses on its behalf in all parts of Wales.

Local Brand	Organisation	Local Authority Areas
Learn Welsh North West	Bangor University	Gwynedd, Anglesey, Conwy
Learn Welsh North East	Coleg Cambria/ Popeth Cymraeg	Denbighshire, Flintshire, Wrexham
Learn Welsh Ceredigion - Powys - Carmarthenshire	Aberystwyth University	Ceredigion, Powys, Carmarthenshire (specific part of the provision)
Learn Welsh Carmarthenshire	Carmarthenshire County Council	Carmarthenshire (specific part of the provision)
Learn Welsh Swansea Bay Region	Swansea University	Swansea, Neath and Port Talbot
Learn Welsh Pembrokeshire	Pembrokeshire County Council	Pembrokeshire
Learn Welsh Gwent	Coleg Gwent	Monmouthshire, Newport, Blaenau Gwent, Torfaen, Caerphilly
Learn Welsh The Vale	Vale of Glamorgan Council	Vale of Glamorgan
Learn Welsh Cardiff	Cardiff University	Cardiff
Learn Welsh Glamorgan	University of South Wales	Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tydfil, Bridgend
Learn Welsh Nant Gwrtheyrn	Nant Gwrtheyrn Welsh Language and Heritage Centre	National



## Croeso – Yr Hybarch Randolph Thomas

Cadeirydd Bwrdd Cwmni y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Mae'n bleser cyhoeddi'r ddogfen hon, sy'n adrodd ar gynnydd cyffrous mewn sawl maes wrth i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol barhau â'i chenhadaeth.

Bu'n flwyddyn brysur o ddatblygiadau digidol a chynlluniau uchelgeisiol, gyda safonau addysgu uchel a systemau cryf yn seiliau cadarn i'r cyfan.

Mae Safle Rhyngweithiol y Ganolfan, **dysgucymraeg.cymru**, sy'n 'siop-un-stop' ar gyfer y sector, yn ennill ei blwyf. Mae dysgwyr o bob cwr o'r wlad a thu hwnt yn troi ato er mwyn cofrestru a thalu am gwrs ac i ddefnyddio'r adnoddau digidol niferus, rhad ac am ddim. Mae'r gwaith o gasglu a rhannu data am y dysgwyr wedi cychwyn, sy'n gymorth wrth gynllunio a marchnata'r ddarpariaeth, ac rydym yn falch ein bod ni'n gweithio tuag at fod yn gyhoeddwr ystadegau swyddogol gyda Llywodraeth Cymru.

Mae cynnydd 'Cymraeg Gwaith', y cynllun i gryfhau sgiliau dwyieithog mewn gweithleoedd, yn adlewyrchu'r galw go iawn am gyrsiau Dysgu Cymraeg ymhlih cyflogwyr. Mae gallu y Ganolfan i deilwra cyrsiau hyblyg ar gyfer gwahanol sectorau yn allweddol i'w lwyddiant.

Law yn llaw â'r uchafbwyntiau hyn, mae gwaith canolog y Ganolfan a'i 11 darparwr cwrs yn parhau, sef cynnal cyrsiau a gweithgareddau Dysgu Cymraeg mewn cymunedau ledled y wlad. Mae canlyniadau calonogol holiadur cenedlaethol y Ganolfan sy'n gofyn barn dysgwyr - 'Dweud eich Dweud' - yn dangos lefel uchel o fodhad.

Hoffwn ddiolch i fy nghyd-aelodau o Fwrdd y Cwmni am eu cyfraniad, ac i Efa Gruffudd Jones, a'i thîm, am eu gwaith dyfal. Diolch hefyd i Dr Haydn H Edwards am ei arweiniad fel Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol y Ganolfan ac i holl aelodau'r Bwrdd am rannu o'u harbenigedd. Pob dymuniad da i'r Cadeirydd newydd, Rheon Tomos.

## Welcome – The Venerable Randolph Thomas

Chair of the Board of Directors of the National Centre for Learning Welsh

It is a pleasure to publish this document, which reports on exciting progress in several areas as the National Centre for Learning Welsh continues with its mission.

It has been a busy year of digital developments and ambitious schemes, with high standards of teaching and robust systems providing solid foundations.

The Centre's Interactive Site, **learnwelsh.cymru**, is a one-stop-shop for the sector, and grows from strength to strength. Learners from all parts of the country and beyond can visit the site to register and pay for courses, and to use the numerous free digital resources. The work of gathering and sharing data about learners is underway, which helps us in planning and marketing provision. We are also pleased to be working towards being an official publisher of statistics with the Welsh Government.

The progress made by 'Work Welsh', the scheme to strengthen bilingual skills in the workplace, reflects the real demand for Learn Welsh courses among employers. The Centre's ability to provide bespoke and flexible courses for different sectors is key to its success.

Along with these highlights, the Centre and its 11 course providers continue with the central role of providing Learn Welsh courses and activities in communities throughout Wales. The encouraging results of the Centre's national questionnaire, which aims to gather learners' views - 'Have Your Say' - reveal a high level of satisfaction.

I would like to thank my fellow members on the Board of Directors for their contribution, and Efa Gruffudd Jones and her team for their diligent work. Thanks are also due to Dr Haydn H Edwards for his leadership as Chair of the Centre's Advisory Board and to all the Board's members for sharing their expertise. I would like to wish Rheon Tomos well in his role as the Board's new Chair.

# Rhagair – Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr

Rhoi dysgwyr yn gyntaf yw nod y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, ac mae canlyniadau holiadur cenedlaethol cyntaf y Ganolfan, ‘Dweud eich Dweud’, a ddenodd bron 4,000 o ymatebion, yn dangos bod ein dysgwyr yn gwerthfawrogi'r cyrsiau a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt.

Dyweddodd 95% o'r ymatebwyr eu bod yn mwynhau dysgu Cymraeg a nododd 85% eu bod yn teimlo'n fwy hyderus wrth siarad Cymraeg ar ôl dilyn cwrs. Byddwn yn parhau i fireinio'r ddarpariaeth, gyda mwy o gyrsiau ac adnoddau newydd a chynlluniau uchelgeisiol i hyfforddi'r gweithlu Dysgu Cymraeg a denu gweithwyr newydd i'r sector.

Mae 'hyder' yn thema sydd wedi llywio nifer o weithgareddau'r Ganolfan dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys cyrsiau ar-lein newydd, cynlluniau peilot mewn cymunedau ac ymgrych farchnata.

Mae hyder yn hollbwysig wrth ddysgu a defnyddio iaith newydd. Mwynhau siarad y Gymraeg yw'r prif nod gyda'n cyrsiau a 'dyn ni'n ymfalchiö yn y cydweithio agos gyda'n darparwyr cwrs i sicrhau cyfleoedd niferus i bobl ddysgu ac ymarfer yr iaith.

Yn ystod y flwyddyn, fe ddenodd y Ganolfan gryn dipyn o sylw rhngwladol. Fe dreuliodd ymwelwyr o Lydaw dridiau yng Nghymru, yn cwrdd â chynrychiolwyr y Ganolfan a'i darparwyr cwrs ac yn arsylwi mewn dosbarthiadau a gweithgareddau. Daeth cynrychiolwyr o bobl y Sami, sy'n byw yng ngogledd Ewrop, i'n gweld, ac aeth tîm o'r Ganolfan i Wlad y Basg i ddysgu gan swyddogion HABE, y corff sy'n gyfrifol am ddysgu'r Fasgeg i oedolion.

Trwy'r gweithgareddau hyn - a ddigwyddodd yn ystod Blwyddyn Ryngwladol leithoedd Brodorol UNESCO - mae'r Ganolfan wedi gallu rhannu profiadau ac arferion da. Byddwn yn parhau i feithrin ein cysylltiadau rhyngwladol er mwyn adeiladu ar ein dealltwriaeth ac arbenigedd o gaffael iaith.

Wrth i'r Ganolfan gyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, hoffwn ddiolch i'n darparwyr cwrs, yn diwtoriaid a staff ymroddedig, am y cydweithio parod a chreadigol. Diolch hefyd i staff gweithgar y Ganolfan, ac i'r Bwrdd Cwmni a'r Bwrdd Ymgynghorol am eu harweiniad cadarn a'u cefnogaeth gydol y flwyddyn.



## Foreword – Efa Gruffudd Jones, Chief Executive

The National Centre for Learning Welsh aims to put learners first, and the results of the Centre's first national questionnaire, 'Have Your Say', which garnered nearly 4,000 responses, show that our learners appreciate the courses and opportunities available for them.

95% of respondents said they enjoyed learning Welsh and 85% stated that they felt more confident when speaking Welsh after following a course. We will continue to refine provision, with additional courses, new resources and ambitious plans to train the Learn Welsh workforce and attract new workers to the sector.

'Confidence' is a theme underlying many of the Centre's activities over the past year, including new online courses, pilot schemes in communities and a marketing campaign.

Confidence is crucial when learning and using a new language. The main aim of our courses is to enable learners to enjoy speaking Welsh and we take pride in collaborating closely with our course providers to ensure numerous opportunities for people to learn and practise the language.

During the year, the Centre attracted international attention. Visitors from Brittany spent three days in Wales, meeting representatives of the Centre and its course providers and observing classes and activities. Representatives of the Sami people from Northern Europe came to visit us, and a team from the Centre went to the Basque Country to learn from HABE, the body responsible for teaching the Basque language to adults.



Through all these activities – which took place during the UNESCO International Year of Indigenous Languages – the Centre has shared experiences and good practice. We will continue to nurture our international relationships in order to build on our understanding and expertise of language acquisition.

As the Centre contributes to the Welsh Government's aim of creating a million Welsh speakers by 2050, I would like to thank the committed tutors and staff at our course providers for their creative and steadfast support. Thanks are also due to the Centre's dedicated staff, and to the Company Board and Advisory Board for their leadership and support throughout the year.



## Dysgwyr sy'n ysbrydoli

Mae gan bob dysgwr ei stori ddiddorol

### E'zzati

Daw E'zzati Ariffin yn wreiddiol o Brunei, Asia, ond mae bellach yn byw gyda'i gŵr, Rhodri, a'u mab bach, Idris, yn Hwlfordd, Sir Benfro.

Dechreuodd E'zzati ddysgu Cymraeg ar ôl symud i Gymru yn 2013 er mwyn astudio gradd Cyfrifeg a Chyllid ym Mhrifysgol Aberystwyth. Yn ystod ei chyfnod yno, fe wnaeth hi gyfarfod Rhodri a phenderfynu rhoi cynnig ar ddysgu'r iaith.

Meddai E'zzati:

**"Mae dysgu iaith newydd bob amser yn sialens ond dw i'n caru'r iaith Gymraeg ac yn benderfynol o ddod yn rhugl rhyw ddiwrnod. Dw i'n trio siarad cymaint â dw i'n gallu a pheidio â phoeni gormod am ramadeg. Dw i hefyd yn ysgrifennu sut dw i'n teimlo mewn dyddiadur bob nos cyn mynd i gysgu."**

Mae E'zzati, sy'n mynychu sesiynau 'Cicio'r Cof', diwrnodau adolygu i ddysgwyr gyda Dysgu Cymraeg Sir Benfro, wedi dechrau 'vlog' YouTube sy'n rhannu ei phrofiadau o ymarfer a siarad yr iaith.

### Huw

Mae Huw Edwards, sy'n berchen nog siop gelfi o'r Coed Duon, Gwent yn manteisio ar bob cyfle i siarad y Gymraeg ar ôl dilyn cyrsiau gyda Dysgu Cymraeg Gwent.

Cafodd Huw ei eni a'i fagu yn y Coed Duon ond treuliodd dros 15 mlynedd yn byw gyda'i wraig, Zoe yn Berkshire, lle bu'n gweithio yn y diwydiant lletygarwch. Ar ôl i rieni Huw ymddeol, symudodd Huw a Zoe yn ôl i Gymru er mwyn rhedeg busnes y teulu.

Fe wnaeth aelodau o deulu Huw sy'n siarad Cymraeg yn rhugl ddwyn perswâd arno i fynychu gwersi. Roedd Huw hefyd yn awyddus i siarad Cymraeg â chwsmeriaid y siop.

Mae Huw wedi magu hyder ers cychwyn dysgu ac mae wrth ei fod yn rhoi cyfle i'w gwsmeriaid siarad Cymraeg. Meddai:

**"Mae cymorth fy nniwtor, dysgwyr eraill a defnyddio apiau Cymraeg y tu allan i'r dosbarth wedi bod yn werthfawr iawn. Yn ychwanegol, mae cyrsiau adolygu undydd ar gael felly hoffwn annog unrhyw un sy'n dymuno dysgu'r iaith i roi cynnig arni, ymarfer cymaint â phosib a manteisio ar yr holl gymorth ychwanegol sydd ar gael."**

## Inspirational Learners

Every learner has an interesting story

### E'zzati

E'zzati Ariffin is originally from Brunei, Asia, but now lives in Haverfordwest, Pembrokeshire with her husband, Rhodri, and their young son, Idris.

E'zzati started learning Welsh after moving to Wales in 2013 to study for a degree in Accounting and Finance at Aberystwyth University. During her time there, she met Rhodri and decided to have a go at learning the language.

E'zzati says:

**"Learning a new language is always challenging, but I love Welsh and I'm determined to become fluent one day. I try to speak as much Welsh as I can, and I don't worry too much about grammar. I also write how I feel in a diary every night before going to bed."**

E'zzati attends 'Cicio'r Cof' sessions, revision days for learners with Learn Welsh Pembrokeshire, and has started a YouTube 'vlog' in which she shares her experiences of practising and speaking the language.

### Huw

Huw Edwards, a furniture shop owner from Blackwood, Gwent, tries to grasp every opportunity to speak Welsh after attending courses with Learn Welsh Gwent.

Huw was born and raised in Blackwood but spent over 15 years living with his wife, Zoe, in Berkshire, working in the hospitality industry. After his parents retired, Huw and Zoe moved back to Wales to run the family business.

Members of Huw's family who speak Welsh fluently persuaded him to attend lessons. Huw was also eager to speak Welsh with shop customers.

Huw's confidence in Welsh has increased since he started taking lessons, and he loves giving his customers the opportunity to speak Welsh.

Huw says:

**"The support of my tutor and other learners, and using Welsh apps outside the class has been invaluable. There are also one-day revision courses available, and I would encourage anyone who would like to learn the language to give it a go, practise as much as possible and take advantage of all the additional support out there."**



# Tiwtoriaid Ysbrydoledeg

Yn arwain ac yn ysbrydoli'r dysgwyr mae tiwtoriaid y sector Dysgu Cymraeg. Mae oddeutu 500 ohonynt yn gweithio yn y maes.

## Ann

Annog myfyrwyr i weld y Gymraeg fel iaith fyw yw nod Ann Davies, tiwtor brwd frydig gyda Dysgu Cymraeg Y Fro ac un o enillwyr Gwobrau Tiwtoriaid Ysbrydoli! Cymru, sy'n dathlu llwyddiannau tiwtoriaid a mentoriaid eithriadol.

Mae Ann, sy'n dod yn wreiddiol o Dre-fach Felindre, Sir Gaerfyrddin, yn meithrin ymdeimlad o gymuned yn ei dosbarthiadau, fel yr eglur:

**"O'r dechrau, dw i'n dweud ein bod ni i gyd yn gwneud hyn gyda'n gilydd, ein bod ni'n deulu. Mae pawb yn gyfrifol am helpu ei gilydd yn ystod yr wythnosau cyntaf, ac mae'n gweithio."**

Mae Ann yn diwtor cyrsiau Dysgu Cymraeg dwys, ac ar hyd y blynnyddoedd mae wedi dysgu gwahanol bobl, o rieni ifanc sydd am helpu eu plant gyda'u gwaith cartref i bobl sydd wedi ymddeol.

**"Dw i'n gweld y Gymraeg fel trysor - rhywbeth sy'n perthyn i ni gyd. Dw i am i bawb deimlo bod croeso iddyn nhw ddysgu Cymraeg a dw i'n mynd ati i annog cymaint o bobl ag y galla i."**



# Inspirational Tutors

Around 500 tutors work in the Learn Welsh sector, guiding and inspiring their learners.

## Ann

Ann Davies is an enthusiastic tutor with Learn Welsh The Vale and she encourages students to see Welsh as a living language right from the start. Ann is one of the winners of the Inspire! Tutor Awards Wales, which celebrate the successes of inspirational tutors and mentors.

Ann is originally from Dre-fach Felindre, Carmarthenshire, and she instils a sense of community in her classes, as she explains:

**"From the beginning, I tell my students that we are all doing this together, and that we are a family. We are all responsible for helping each other during the first few weeks, and that does work."**

Ann tutors intensive Learn Welsh courses, and over the years, she has taught everyone, from young parents who are eager to help their children with their homework to retirees.

**"For me, the Welsh language is a treasure, and something which belongs to all of us. I want everyone to feel that they are welcome to learn the language and I try to encourage as many people as I can to learn Welsh."**

# Lefelau dysgu'r sector Dysgu Cymraeg

Mae cyrsiau Dysgu Cymraeg y Ganolfan ar gael ar wahanol lefelau, sy'n cyd – fynd â lefelau dysgu fframwaith Cyngor Ewrop.

Enw'r lefel	Disgrifiad	Lefel dysgu Fframwaith Cyngor Ewrop	Isafswm oriau cyswllt a argymhellir
Mynediad	Cyrsiau ar gyfer dechreuwyr, sy'n cyflwyno geirfa a phatrymau iaith syml ac ymadroddion pob dydd. Mae'r pwyslais ar siarad yr iaith.	A1	120
Sylfaen	Mae'r lefel hon yn adeiladu ar lefel Mynediad ac yn gofyn am rywfaint o brofiad o'r Gymraeg. Mae'r prif bwyslais ar siarad yr iaith, gyda chyfle i drafod pynciau pob dydd fel y teulu a ffrindiau, gwaith a diddordebau.	A2	120
Canolradd	Mae'r lefel hon yn adeiladu ar lefel Sylfaen ac yn addas ar gyfer pobl sy'n gyfarwydd â phrif batrymau'r Gymraeg. Mae cyfle i ddatblygu sgiliau sgwrsio, gydag ychydig mwy o waith ysgrifennu, darllen a gwrando.	B1	120
Uwch	Dyma gyfle i ymarfer trafod pynciau a themâu o bob math. Bydd dysgwyr hefyd yn datblygu eu sgiliau darllen, ysgrifennu a gwrando.	B2	360
Hyfedredd	Mae'r cyrsiau Hyfedredd, sy'n addas ar gyfer dysgwyr rhugl a siaradwyr Cymraeg, yn cael eu teilwra ar gyfer anghenion y dosbarth. Y nod cyffredinol yw datblygu sgiliau'r myfyrwyr ymhellach a'u helpu i fagu hyder.		

# Learning levels in the Learn Welsh sector

Learn Welsh courses provided through the Centre are available at different levels, which correspond to the learning levels of the Common European Framework.

Name of level	Description	Learning levels of the Common European Framework	Recommended minimum number of contact hours
Entry	Courses for beginners, introducing simple vocabulary and linguistic patterns and everyday phrases. The emphasis is on speaking the language.	A1	120
Foundation	This level builds on Entry and requires some experience of Welsh. The main emphasis is on speaking, with an opportunity to discuss everyday subjects such as family and friends, work and hobbies.	A2	120
Intermediate	This level builds on Foundation and is suitable for those who are familiar with the main patterns of Welsh. There is an opportunity to develop conversational skills, with a little more writing, reading and listening.	B1	120
Advanced	An opportunity to discuss all kinds of subjects and themes. Learners also develop their reading, writing and listening skills.	B2	360
Proficiency	Proficiency courses, suitable for fluent learners and Welsh speakers, are tailored to the needs of the class. The general aim is to further develop students' skills and help them gain confidence.		

## Amcan Strategol 1:

Datblygu rhaglen arloesol o gyrsiau atyniadol ac addas i ddysgwyr gan wneud defnydd llawn o'r dechnoleg ddiweddaraf.



- ▶ Cyrsiau cenedlaethol
- ▶ Mesur cynnydd
- ▶ Gwersi cyfoes

### Cyrsiau cenedlaethol newydd

Mae'r gwaith hollbwysig o lunio, peilota a chyhoeddi cyrsiau Dysgu Cymraeg newydd, yn seiliedig ar y cwricwlwm cenedlaethol a gyflwynwyd gan y Ganolfan yn 2017, wedi parhau yn ystod y flwyddyn.

Mae'r cwricwlwm wedi'i rannu'n bedair prif lefel - Mynediad, Sylfaen, Canolradd ac Uwch. Hyfedredd yw'r bumed lefel lle gall siaradwyr Cymraeg a dysgwyr ddod at ei gilydd er mwyn gloywi eu sgiliau.

Ers mis Medi 2019, mae pawb sy wedi dechrau dysgu Cymraeg ar draws Cymru'n defnyddio'r un cwrs, sef y cwrs Mynediad newydd. Lansiwyd y cwrs yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy. Mae'r cwrs yn cynnwys llyfr i'r dysgwyr a channoedd o adnoddau digidol am ddim ar y Safle Rhngweithiol, [dysgcymraeg.cymru](http://dysgcymraeg.cymru). Ar gyfer tiwtoriaid darperir canllawiau manwl, blwch adnoddau proffesiynol a ffon gof sy'n cynnwys holl sain a fideos y cwrs.

Mae dysgwyr ar lefel Uwch 1 hefyd yn dilyn cwrs cenedlaethol newydd. Yn dilyn peilota trylwyr, cyhoeddir lefelau Sylfaen ac Uwch 2 ym mis Ionawr 2020. Mae cyrsiau Canolradd ac Uwch 3 yn cael eu peilota ar hyn o bryd. Y nod yw creu siaradwyr hyderus sy'n mwynhau defnyddio'r Gymraeg.

## Strategic Objective 1:

Develop an innovative programme of attractive and suitable courses for learners making full use of the latest technology.



- ▶ National courses
- ▶ Measuring progress
- ▶ Contemporary lessons

### New national courses

The important work of designing, piloting and publishing new Learn Welsh courses, based on the national curriculum introduced by the Centre in 2017, has continued during the year.

The curriculum is divided into four main levels - Entry, Foundation, Intermediate and Advanced. The fifth level is Proficiency, in which Welsh speakers and learners can come together to improve their skills.

Since September 2019, all those starting to learn Welsh throughout Wales have used the same course, the new Entry course. The course was launched at the Conwy County National Eisteddfod. The course includes a course book for learners and hundreds of free digital resources on the Interactive Site, [learnwelsh.cymru](http://learnwelsh.cymru). Detailed guidance is provided for tutors, along with resources to use in the classroom as well as audio resources and videos.

Learners at Advanced Level 1 are also following a new national course. Following thorough trials, Foundation and Advanced Level 2 courses will be launched in January 2020. The Intermediate and Advanced 3 courses are currently being piloted. The aim is to create confident speakers who enjoy using the Welsh language.



## Mesur cynnydd

Datblygwyd system o'r enw 'Mesur' er mwyn i'r dysgwyr allu mesur eu cynnydd pob tair uned wrth weithio trwy'r cyrsiau. Ceir cyfres o dasgau i hyrwyddo asesu ar gyfer dysgu ar lefelau Mynediad ac Uwch 1 ar y Safle Rhyngweithiol. Bydd 'Mesur' yn weithredol ar gyfer 2019-20. Bydd tiwtoriaid yn gallu gweld sgoriau'r bobl yn eu dosbarthiadau nhw. Dyma'r tro cyntaf i'r sector ddefnyddio technoleg i gynorthwyo dysgwyr i asesu eu cynnydd yn barhaus.

## Gwersi cyfoes

Er mwyn sicrhau bod gwersi lefel Uwch yn gyfredol, cyhoeddir cyfres o versi cyfoes bob blwyddyn. Yn 2018-19, cyhoeddwyd y canlynol:

- ▶ Gwers i hyrwyddo Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth oedd yn cynnwys cerdd wreiddiol gan Mererid Hopwood.
- ▶ Gwers i hyrwyddo cynhyrchiad y Theatr Genedlaethol 'Nysys'. Cafwyd dystiolaeth bod dysgwyr Cymraeg wedi chwyddo'r cynulleidfa oedd.

- ▶ Gwers i gynorthwyo dysgwyr i wyllo'r gyfres 'Garddio a Mwy' ar S4C. Hyrwyddir o leiaf un o gyfresi S4C yn flynyddol.
- ▶ Gwers i annog dysgwyr i ymweld ag Eisteddfod Sir Conwy a'r ardal oedd yn cynnwys cyfweliad gyda'r Archdderwydd Myrddin ap Dafydd.

## Cynhadledd genedlaethol

Daeth diwtoriaid o bob cwr o Gymru ynghyd ar gyfer y gynhadledd flynyddol a gynhalwyd ym mis Mai yng Nghanolfan yr Urdd, Bae Caerdydd. 'Hyder' oedd thema cyflwyniad y prif siaradwr, Stifyn Parri. Fe siaradodd y bardd, Catrin Dafydd, yn angerddol am gyfraniad dysgwyr i'r Gymraeg.



## Measuring progress

A system called 'Mesur' ('Measure') has been developed so that learners can measure their progress every three units as they work through the courses. A series of tasks is provided to encourage assessment for learning at Entry and Advanced 1 levels on the Interactive Site. 'Mesur' will be operative for 2019-20. Tutors will be able to see their learners' scores. This will be the first time for the sector to use technology to support learners to continually assess their progress.

## Contemporary lessons

Contemporary lessons are developed every year to introduce learners at Advanced level to aspects of modern-day Welsh culture. In 2018-19, the following were devised:

- ▶ A lesson promoting National Poetry Day, which included an original poem by Mererid Hopwood.
- ▶ A lesson promoting the 'Nysys' production by the Welsh-medium national theatre, Theatr Genedlaethol. There was evidence that Welsh learners contributed to an increase in audience numbers.

- ▶ A lesson supporting learners to watch the 'Garddio a Mwy' gardening series on S4C. The Centre develops a lesson on at least one S4C series every year.
- ▶ A lesson encouraging learners to attend the Conwy County National Eisteddfod in Llanrwst, which included an interview with the Archdruid, Myrddin ap Dafydd.

## National conference

Tutors from all parts of Wales came together for the annual national conference in May, held at the Urdd Centre, Cardiff Bay. The keynote speaker was Stifyn Parry, who delivered a presentation on the theme 'Confidence'. The poet Catrin Dafydd also spoke passionately about learners' contribution to the Welsh language.



## Amcan Strategol 2:

Datblygu cynlluniau arloesol i sicrhau cyfleoedd a chyd-destunau i'r dysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg yn hyderus.



- ▶ Cymraeg Gwaith
- ▶ Croeso i bawb
- ▶ Clwb Cwtsh
- ▶ Cefnogi dysgwyr
- ▶ Codi hyder

### Cymraeg Gwaith Work Welsh

#### Cefndir

Ers 2017 mae'r Ganolfan wedi gweithredu cynllun penodol o'r enw 'Cymraeg Gwaith' i gryfhau sgiliau dwyieithog mewn gweithleoedd ledled Cymru.

Mae'r cynllun hyblyg hwn yn cynnwys sawl elfen:

- ▶ **Gwasanaeth a gwylbodaeth i gyflogwyr.**  
gan gynnwys cyngor ar gynllunio'r gweithlu, asesu sgiliau ac ôl-ofal i ddysgwyr.
- ▶ **Cyrsiau ar-lein** ar gyfer dechreuwyd sydd heb sgiliau Cymraeg i'w galluogi i ddelio â'r cyhoedd gan ddefnyddio ymadroddion parod.  
Mae cyrsiau wedi'u teilwra ar gyfer y sectorau Iechyd, Gofal, Twristiaeth a Lletygarwch, ymhliith eraill.

- ▶ **Cyrsiau dwys** i alluogi gweithwyr i wneud cynnydd arwyddocaol yn eu sgiliau Cymraeg.
- ▶ **Cyrsiau preswyl** pum niwrnod o hyd i ddatblygu sgiliau a magu hyder.

Mae cydweithio agos gyda chyflogwyr - er mwyn teilwra cyrsiau perthnasol a chynnig modelau dysgu hyblyg - wedi bod yn hanfodol i lwyddiant y cynllun.

## Strategic Objective 2:

Develop innovative schemes to secure opportunities and contexts where learners can use their Welsh with confidence.



- ▶ Work Welsh
- ▶ Clwb Cwtsh
- ▶ Cefnogi dysgwyr
- ▶ Building confidence

- ▶ All are welcome
- ▶ Supporting Learners

### Cymraeg Gwaith Work Welsh

#### Background

Since 2017, the Centre has implemented a specific scheme called 'Work Welsh' to develop bilingual skills in workplaces throughout Wales. This flexible scheme includes several elements:

- ▶ **Service and information for employers,** including advice on workplace planning, assessing skills and after-care support for learners.
- ▶ **Online courses** for beginners with no Welsh language skills to enable them to deal with the public, using prepared phrases. The courses have been tailored for the Health, Care and Tourism and Hospitality sectors, among others.

- ▶ **Intensive courses** to enable workers to make significant progress in their Welsh language skills.
- ▶ **Residential courses** of five days in length to develop skills and confidence.

Close collaboration with employers - in order to tailor relevant courses and offer flexible learning models - has been key to the scheme's success.

## Prosiectau sectorol

Yn ystod y flwyddyn, fe gynhalwyd prosiectau 'Cymraeg Gwaith' ar gyfer y sectorau canlynol:

### Iechyd

Mae'r Ganolfan wedi datblygu cynllun arbennig ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, sy'n cynnwys ariannu Swyddog Mentora Ôl-ofal sy'n rhoi cefnogaeth i bawb sydd wedi mynchu hyfforddiant Dysgu Cymraeg.

### Gofal

Mae'r Ganolfan yn cydweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gynnal cyrsiau ar-lein a wyneb-yn-wyneb i gynyddu sgiliau Cymraeg gweithwyr yn y maes.

### Addysg Bellach ac Addysg Uwch

Mae'r Ganolfan yn cydweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Cholegau Cymru i weithredu'r prosiect hwn. Mae'r Ganolfan yn ariannu tiwtoriaid i ddarparu hyfforddiant i staff academaidd a chefnogi pob coleg Addysg Bellach a sefydliad Addysg Uwch.

### Busnes

Mae cynlluniau wedi eu teilwra ar gyfer busnesau preifat, gan gynnwys BT Cymru a'r Principality, sy'n cynnwys codi ymwybyddiaeth a chyrsiau hyblyg.

## Prentisiaethau

Mae'r Ganolfan yn gweithio'n agosach gyda'r sector prentisiaethau i ddarparu hyfforddiant Dysgu Cymraeg i diwtoriaid/aseswyr a phrentisiaid.

### Addysg a Gofal Plant Blynnyddoedd Cynnar - cynllun 'Camau'

Dyma gynllun arloesol, a lansiwyd yn ystod Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro 2019, i helpu pobl sy'n gweithio yn y sector Addysg a Gofal Plant Blynnyddoedd Cynnar i gryfhau eu sgiliau Cymraeg. Bydd y cynllun yn helpu ymarferwyr, yn athrawon meithrin, gwarchodwyr plant ac ati, i ymateb yn fwy effeithiol i gwricwlwm newydd arfaethedig Llywodraeth Cymru a'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant tair i saith oed. Mae Datblygu'r Gymraeg yn un o'r saith maes dysgu a nodwyd yn y Cyfnod Sylfaen.

Disgwylir y bydd 350 o ymarferwyr yn mynchu hyfforddiant wyneb-yn-wyneb yn y Gymraeg dros y flwyddyn nesaf gyda 1,000 arall yn dilyn cwrs ymwybyddiaeth iaith.

Bydd y cynllun yn gweithredu modelau hyblyg i gynorthwyo cyflogwyr i ryddhau staff i fynychu hyfforddiant.

## Sectoral projects

During the year, 'Work Welsh' projects have been undertaken with the following sectors:

### Health

The Centre has developed a programme for the Betsi Cadwaladr University Health Board, which involves funding an Aftercare Mentoring Officer to support learners who have undertaken Learn Welsh training.

### Care

The Centre works with Social Care Wales to deliver online and face-to-face courses to improve the Welsh skills of care workers.

### Further Education and Higher Education

The Centre works with Coleg Cymraeg Cenedlaethol and WelshColleges to implement this project. The Centre funds tutors to provide training for academic and support staff at all Further Education colleges and Higher Education institutions.

### Business

Schemes have been tailored for private businesses, including BT Cymru/Wales and the Principality. These schemes involve raising awareness and delivering flexible courses.

### Apprenticeships

The Centre is working closer with the apprenticeship sector to provide training to tutors/assessors and apprentices.

### Early Years Education and Childcare - 'Camau' scheme

This is an innovative scheme, launched at the Cardiff and Vale National Urdd Eisteddfod 2019, to help people who work in the Early Years Education and Childcare sector to improve their Welsh skills. 'Camau' (the Welsh for 'steps') will help practitioners to respond more effectively to the Welsh Government's proposed new curriculum and the Foundation Phase for children aged three to seven. Welsh Language Development is one of the seven areas of learning noted in the Foundation Phase.

It is expected that 350 practitioners will attend face-to-face training in Welsh over the next year, with another 1,000 following a language awareness course.

The scheme offers training based on flexible models to help employers release staff to attend training.





## Gwiriwr Lefel Iaith Gymraeg

Peilotwyd erfyn diagnostig newydd y Ganolfan, y Gwiriwr Lefel Iaith Gymraeg, sy'n mesur lefel sgiliau iaith unigolion. Mae'r Gwiriwr yn adnodd digidol cyffrous sy'n defnyddio deallusrwydd artifisiai i ofyn cwestiynau sy'n unigryw i sgiliau'r defnyddiwr.

## Clwb Cwtsh

Cynhaliwyd y Clwb Cwtsh, cynllun ar y cyd rhwng y Ganolfan a Mudiad Meithrin, am ail flwyddyn. Mae'r Clwb Cwtsh yn cynnig cyrsiau blasu rhad ac am ddim i rieni, gofalwyr a theuluoedd mewn cymunedau ledled y wlad. Mae'r cyrsiau yn cael eu cynnal mewn awyrgylch cyfeillgar ac anffurfiol; mae croeso i ddysgwyr fynychu gyda'u plant a darperir adloniant ar eu cyfer. Mae oddeutu 600 o unigolion wedi cymryd rhan yng nghyrsiau'r Clwb Cwtsh.

## Cynlluniau peilot Codi Hyder

Fel rhan o'i hawydd i weld mwy o bobl yn defnyddio'r Gymraeg, mae'r Ganolfan wedi sefydlu prosiect peilot yn ardal Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin i gynorthwyo siaradwyr dihyder neu anfoddog i godi eu hyder wrth ddefnyddio'r iaith. Bydd technegau arloesol yn cael eu defnyddio wrth gydweithio yn agos gydag unigolion gyda'r nod o gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.

## Croeso i bawb

Mae'r Ganolfan wedi gweithio gyda'i darparwyr cwrs i gynyddu'r ddarpariaeth i gymunedau aml-ddiwylliannol gan gynnwys (ond ddim yn gyfyngedig i) ceiswyr lloches a ffoaduriaid. Mae hwn yn brosiect fydd yn parhau dros y cyfnod nesaf wrth i ni sicrhau bod gan bawb sy'n byw yng Nghymru gyfle i ddysgu Cymraeg.

## Cefnogi Dysgwyr

Mae pob darparwr cwrs yn cynnal digwyddiadau rheolaidd i roi cyfre i'w dysgwyr ddefnyddio'r iaith, gan gynnwys clybiau darllen ac ymweliadau.



## Welsh Language Level Checker

The Centre's new diagnostic tool, the 'Level Checker' which measures individuals' Welsh language skills, was piloted during the year. The Level Checker is an exciting digital resource which uses artificial intelligence to ask questions which are unique to the user's skills.

## Clwb Cwtsh

The Clwb Cwtsh scheme, a partnership between the Centre and the Mudiad Meithrin early years specialists, was held for a second year. The Clwb Cwtsh offers free taster courses for parents, carers and families in communities throughout the country. The courses are held in a friendly and informal atmosphere; learners are welcome to attend with their children, for whom entertainment is provided. Approximately 600 individuals have taken part in Clwb Cwtsh courses.

## Pilot schemes to build confidence

As part of its desire to see more people using the Welsh language, the Centre has established a pilot project with Learn Welsh North West to support reluctant Welsh speakers or those lacking in confidence to develop their confidence in using the language. Innovative techniques will be used to collaborate closely with individuals with the aim of increasing their use of Welsh.

## All are welcome

The Centre has worked with its course providers to increase provision for multi-cultural communities including (but not confined to) asylum seekers and refugees. This project will continue in the next phase as we ensure that everyone who lives in Wales has the opportunity to learn Welsh.

## Supporting Learners

All course providers hold regular events to provide opportunities for learners to use their Welsh, such as book clubs and trips.





Yn ganolog, yn ystod 2018-2019 fe drefnodd y Ganolfan y canlynol:

# Siarad.

**Siaradwyr Cymraeg a dysgwyr gyda'i gilydd**  
Bringing Welsh speakers and learners together

Mae Siarad yn gynllun gwirfoddol, wedi'i seilio ar gynllun tebyg o'r enw Voluntariat Per La Llengua yng Nghatalwnia, sy'n paru siaradwyr rhugl gyda dysgwyr. Mae'r parau yn cytuno i gwrdd am 10 awr dros gyfnod o fisoedd, er mwyn rhoi cyfle i'r dysgwyr ymarfer siarad Cymraeg mewn awyrgylch anffurfiol a magu hyder. Bydd y dysgwyr hefyd yn cael ei gyflwyno i gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn lleol. Hyd yma, mae dros 2,000 o oriau o siarad Cymraeg gwirfoddol wedi bod o ganlyniad i'r cynllun.

## Penwythnosau preswyl

Ym mis Chwefror, daeth dros 50 o deuluoedd at ei gilydd i fwynhau penwythnos o weithgareddau hwyliog a gwensi ar Benwythnos Cymraeg i'r Teulu Gwersyll yr Urdd Llangrannog. Cynhaliwyd penwythnos tebyg, ar gyfer oedolion, yng Ngwersyll yr Urdd Glan-llyn, ym mis Mai.

## Teithiau cerdded

Menter newydd oedd cynnal cyfres o deithiau cerdded, ar y cyd â'r Urdd, mewn pedair ardal o Gymru.

## Theatr addas ar gyfer dysgwyr

Yn dilyn llwyddiant 'Taith yr Iaith', sioe un person yn cyflwyno hanes y Gymraeg i ddysgwyr, comisiynwyd ail ddrama gan yr un cwmni, Mewn Cymeriad. Mae sioe 'Trafferth' wedi ei perfformio i gynulleidfa oedd o ddysgwyr ledled Cymru. Mae'n rhoi hanes chwedlau'r Mabinogi trwy lygaid y bardd Dafydd ap Gwilym.

## Ar Lafar

Fe barhaodd y bartneriaeth lwyddiannus rhwng y Ganolfan, Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru gyda'r wyl undydd i ddysgwyr, Ar Lafar, a gynhalwyd am y trydydd tro. Mae'r wyl yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer y tu allan i'r dosbarth a chymdeithasu gyda dysgwyr eraill, tra'n dysgu mwy am hanes a diwylliant Cymru. Cynhaliwyd yr wyl ar bedwar safle: Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru - enillydd Amgueddfa'r Flwyddyn 2019; yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis; Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth; ac am y tro cyntaf, yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol yn Nhre-fach Felindre.

Nationally, the Centre organised the following during 2018-2019:

# Siarad.

**Siaradwyr Cymraeg a dysgwyr gyda'i gilydd**  
Bringing Welsh speakers and learners together

Siarad (the Welsh for 'speak') is a voluntary scheme, based on a similar scheme, Voluntariat Per La Llengua in Catalonia, which matches fluent speakers with learners. The pairs agree to meet for 10 hours over a period of months, so that learners can practise their Welsh in an informal situation and develop their confidence. The learners are also introduced to opportunities to use their Welsh locally. To date, pairs have spent over 2,000 hours speaking Welsh as part of the scheme.



## Residential weekends

In February, over 50 families came together to enjoy a weekend of lively activities and lessons on the annual Welsh for the Family weekend at the Urdd residential camp in Llangrannog. A similar weekend was held for adults at the Urdd residential camp, Glan-llyn, Bala, in May.

## Guided walks

A new initiative was a series of guided walks through the medium of Welsh, organised in conjunction with the Urdd, in four areas of Wales.

## Theatre suitable for learners

Following the success of 'Taith yr Iaith', a one-person show introducing the history of the Welsh language to learners, a second drama was commissioned from the same company, Mewn Cymeriad/In Character. The show 'Trafferth' has been performed to audiences of learners throughout Wales. It introduces the Mabinogi tales through the eyes of the medieval poet, Dafydd ap Gwilym.

## Ar Lafar

The successful partnership between the Centre, Amgueddfa Cymru - National Museum Wales and the National Library of Wales continued, with the national festival for learners, Ar Lafar (the Welsh for 'spoken'), held for a third year. The festival gives learners an opportunity to practise their Welsh outside the classroom and socialise with other learners, while also learning more about Welsh history and culture. The festival was held at four sites: St Fagans National History Museum - winner of Museum of the Year 2019; the National Slate Museum, Llanberis; The National Library of Wales, Aberystwyth; and for the first time, the National Wool Museum at Dre-fach Felindre.

## Partneriaethau eraill:

### S4C

Mae'r Ganolfan wedi cyngori S4C ar ei harlwy newydd i ddysgwyr. Mae rhagleni hamdden a rhaglen newyddion hawdd eu deall yn cael eu darlledu bob dydd Sul; mae pytiau digidol ar gyfer dechreuwyr hefyd yn cael eu darlledu ar-lein. Lluniwyd gwers gyfoes yn seiliedig ar un o gyfresi teledu S4C yn ystod y flwyddyn hefyd.

### BBC Radio Cymru

Cefnogodd y Ganolfan wythnos 'Dathlu Dysgu Cymraeg' Radio Cymru, a gynhaliwyd yn ystod mis Hydref 2019. Roedd eitemau am ddysgwyr ac ar gyfer dysgwyr, a chyfraniadau gan ddysgwyr, ar draws yr amserlen.



Y tri a ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth Medal y Dysgwyr Eisteddfod yr Urdd 2019, o'r chwith i'r dde, Molly Evans, Jack Wilson, a'r enillydd, Francesca Elena Sciarrillo.

The three leading competitors in the Learners' Medal competition at the 2019 Urdd Eisteddfod, from left to right, Molly Evans, Jack Wilson, and the winner, Francesca Elena Sciarrillo.

### Eisteddfod Genedlaethol

Bu presenoldeb gan y Ganolfan a'i darparwr cwrs, Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin, yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019. Cynhalwyd rownd derfynol y cwis i ddysgwyr, Y Cwis Mawr, a sawl digwyddiad arall. Llongyfarchiadau i Fiona Collins, enillydd cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn.

### Eisteddfod yr Urdd

Roedd yn braf gweld bod y tri chystadleuydd a ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth Medal y Dysgwyr Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro 2019, gan gynnwys yr enillydd, Francesca Elena Sciarrillo, yn dysgu Cymraeg gyda darparwyr y Ganolfan. Mae Francesca, sy'n dod o'r Wyddgrug, yn dilyn cyrsiau gyda Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain. Mae Jack Wilson, a ddaeth yn ail, yn dysgu'r iaith gyda Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin. Mae Molly Evans, a ddaeth yn drydydd, hefyd yn dysgu gyda Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain.



O'r chwith i'r dde, Steve Bale a Michelle Unsworth, myfyrwyr Dysgu Cymraeg Gwent, gyda Sioned Wyn Roberts, Comisiynydd Cynnwys Plant, Addysg a Digidol S4C.

From left to right at the launch of S4C's new provision for Welsh learners: Steve Bale and Michelle Unsworth, students with Learn Welsh Gwent, with Sioned Wyn Roberts, S4C Content Commissioner Children, Education and Digital.

## Other partnerships:

### S4C

The Centre has advised S4C on its new provision for learners, which includes lifestyle programmes and a news programme broadcast every Sunday. Digital content for beginners is also broadcast online. A contemporary lesson was also based on one of S4C's series during the year.

### BBC Radio Cymru

With the Centre's support, during October 2019 BBC Radio Cymru held a special week of programming to celebrate learning Welsh. There were items about and for learners, as well as contributions by learners across the schedule.

## National Eisteddfod

The Centre and its course provider, Learn Welsh North West, had a strong presence at the Conwy County National Eisteddfod in Llanrwst. The final of the learners' quiz, Y Cwis Mawr, was held, along with several other events. Warmest congratulations to Fiona Collins, winner of the Welsh Learner of the Year competition.

### Urdd Eisteddfod

It was pleasing to see that the three leading competitors in the Learners' Medal competition at the 2019 Cardiff and Vale Urdd National Eisteddfod, including the winner, Francesca Elena Sciarrillo, are learning Welsh with the Centre's course providers. Francesca, who comes from Mold, is learning with Learn Welsh North East. The winner of the second prize, Jack Wilson, is learning with Learn Welsh North West. Molly Evans, who came third, is also learning Welsh with Learn Welsh North East.



## Amcan Strategol 3:

**Sefydlu rhwydwaith o ddarparwyr cwrs er mwyn cynnig gwasanaeth o ragoriaeth.**



- ▶ Ansawdd
- ▶ Datblygu'r gweithlu
- ▶ Grantiau Arloesi

### Fframweithiau ansawdd

Mae'r Ganolfan wedi sefydlu nifer o fframweithiau ansawdd cadarn i sicrhau ei bod yn anelu at ragoriaeth wrth roi arweiniad strategol i'r sector Dysgu Cymraeg.

Mae gofyn i ddarparwyr cwrs y Ganolfan hefyd gasglu tystiolaeth glir sy'n dangos sut maen nhw'n cynnig y gwasanaeth gorau i'w dysgwyr.

Mae'r fframweithiau yn rhestru dangosyddion ar gyfer gwella ansawdd yn y pum maes a arolygir gan Estyn, swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru:

- ▶ Safonau.
- ▶ Lles ac agweddu at ddysgu.
- ▶ Addysgu a phrofiadau dysgu.
- ▶ Gofal, cymorth ac arweiniad.
- ▶ Arweinyddiaeth a rheolaeth.

Mae'r fframweithiau yn galluogi'r Ganolfan a'i darparwyr cwrs i hunan asesu – i fonitro cynnydd ac adnabod gwelliannau.

### Estyn

Cynhaliwyd Arolygiad o'r darparwr cwrs, Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe, yn ystod mis Mai 2019 a barnwyd y darparwr yn 'dda' ar draws y pum maes. Bwriad Estyn yw arolygu dau ddarparwr cwrs yn flynyddol a'r Ganolfan ei hun yn 2020.

### Datblygu'r gweithlu

Mae'r Ganolfan wedi hwyluso Cynllun Datblygu'r Gweithlu, er mwyn darparu hyfforddiant i godi a chysoni safonau.

Fel rhan o'r cynllun, yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd pecyn anwytho ar gyfer tiwtoriaid newydd, sydd ar gael yn ddigidol ar y Safle

## Strategic Objective 3:

**Establish a network of course providers to offer a service of excellence.**



- ▶ Quality
- ▶ Developing the workforce
- ▶ Innovation Grants

### Quality frameworks

The Centre has established a number of robust quality frameworks to ensure it strives for excellence in providing strategic leadership to the Learn Welsh sector.

The Centre's course providers are also required to gather clear evidence to show how they offer the best possible service to their learners.

Quality frameworks include indicators for improving the five areas inspected by Estyn, Her Majesty's Inspectorate of Education and Training in Wales:

- ▶ Standards.
- ▶ Wellbeing and attitudes to learning.
- ▶ Teaching and learning experiences.
- ▶ Care, support and guidance.
- ▶ Leadership and management.

The frameworks enable both the Centre and its course providers to self-assess – to monitor progress and identify improvements.

### Estyn

Learn Welsh Swansea Bay Region was inspected in May 2019, and was judged by Estyn to be 'good' across all five areas. Estyn intends to inspect two course providers annually and the Centre itself in 2020.

### Developing the workforce

The Centre has facilitated a Workforce Development Plan, in order to provide training to ensure standards are raised and maintained.

As part of the plan, during the year, a new induction pack was developed for new tutors, which is available on the Interactive Site, [learnwelsh.cymru](http://learnwelsh.cymru). The pack contains information about the sector, training videos and details about the training courses provided.



Rhyngweithiol, **dysgucymraeg.cymru**. Mae'r pecyn yn cynnwys gwybodaeth am y sector, fideos hyfforddiant, a manylion am y cyrsiau hyfforddi sy'n cael eu darparu.

Mae'r gwaith o ddatblygu cymhwyster newydd ar gyfer tiwtoriaid yn parhau, ac yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf, bydd yr 'Academi' yn cael ei lansio. Nod yr Academi fydd darparu cyfleoedd i holl staff y sector Dysgu Cymraeg i ddatblygu ystod eang o sgiliau a phrofiadau a magu hyder yn eu gwaith.

### Grantiau Arloesi

Er mwyn annog arloesedd yn y sector Dysgu Cymraeg, mae'r Ganolfan yn gweithredu Cynllun Grant Arloesi Dysgu Cymraeg. Mae'r Ganolfan yn dyfarnu'r grantiau yn unol â'r meinu prawf canlynol:

- ▶ Dysgu Cymraeg i Rieni.
- ▶ Dilyniant i Clwb Cwtsh, y cynllun ar y cyd gyda Mudiad Meithrin sy'n darparu cyrsiau blasu i rieni a gofalwyr, ynghyd ag adloniant i'w plant.
- ▶ Cyfleoedd Defnyddio'r Gymraeg: cynnig cyfleoedd newydd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn partneriaeth â sefydliadau/rhanddeiliaid lleol.
- ▶ Dysgwyr sy'n anodd eu cyrraedd e.e. teuluoedd difreintiedig, ceiswyr lloches neu ffaoduriaid.

The work of developing a new qualification for tutors is ongoing, and during the next academic year, the 'Academi' will be launched. The Academi will provide opportunities for staff across the Learn Welsh sector to develop a wide range of skills and experiences and to develop confidence in their work.

### Innovation Grants

In order to promote innovation in the Learn Welsh sector, the Centre operates the Learn Welsh Innovation Grant Scheme. The Centre awards grants in line with the following criteria:

- ▶ Learn Welsh for Parents.
- ▶ Follow-up to Clwb Cwtsh, the scheme in partnership with the Mudiad Meithrin early years specialists, which provides taster courses for parents and carers, along with entertainment for their children.
- ▶ Opportunities to use the Welsh language: create new opportunities for learners to use their Welsh in partnership with local organisations/stakeholders.
- ▶ Difficult-to-reach learners e.g. disadvantaged families, asylum seekers or refugees.

Dyma grynodeb o Grantiau Arloesi'r Ganolfan ar gyfer 2018-2019.

This is a summary of the Centre's Innovation Grants for 2018-2019.

Darparwr	Partneriaid	Crynodeb
Dysgu Cymraeg Sir Benfro	Eisteddfod Genedlaethol; Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro; Mudiad Meithrin; ac eraill.	Cyfres o gyrsiau sy'n cyflwyno dysgwyr i fywyd diwylliannol Cymraeg, gan gynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol, S4C a Radio Cymru, a chwrs newydd sy'n pontio Clwb Cwtsh a chyrsiau Cymraeg i'r Teulu.
Dysgu Cymraeg Caerdydd	Dechrau'n Deg; Cymraeg i Blant; Oasis Cardiff; Tŷ'r Cymry; ac eraill.	Targedir teuluoedd mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghaerdydd, ffaoduriaid a cheiswyr lloches gydag ystod o gyrsiau Dysgu Cymraeg, gan gynnwys cyrsiau i ferched yn unig a chyrsiau preswyl.
Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain	Mudiad Meithrin.	Darparu cyrsiau sy'n pontio Clwb Cwtsh a chyrsiau Cymraeg i'r Teulu.
Dysgu Cymraeg Ceredigion-Powys-Sir Gâr	Cynghorau Sir Ceredigion a Phowys; Mudiad Meithrin.	Cynnig cyfres o gyrsiau a digwyddiadau dysgu anffurfiol ar gyfer teuluoedd.
Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin	Awdurdodau lleol; Menteriau Iaith; Mudiad Meithrin; yr Urdd; Dechrau'n Deg; Siarter Iaith; Cymraeg i Blant; S4C; Gisda.	Sesiynau dysgu lled-ffurfiol a dysgu anffurfiol ar gyfer teuluoedd gyda 'Sadyrnau i'r Teulu'.
Dysgu Cymraeg Y Fro	Menter Bro Morgannwg; yr Urdd; Mudiad Meithrin; Addysg Oedolion Bro Morgannwg; Ysgolion Cymraeg Bro Morgannwg.	Denu mwy o rieni plant y Fro i ddysgu Cymraeg, ac ymestyn cyfleoedd i deuluoedd ddefnyddio'r Gymraeg, trwy gynnal sesiynau 'Clwb Ni' anffurfiol, sydd o les i blant hefyd.

Provider	Partners	Summary
Learn Welsh Pembrokeshire	National Eisteddfod; Pembrokeshire Coast National Park Authority; Mudiad Meithrin early years specialists; and others.	Series of courses which introduce learners to Welsh cultural life, including the National Eisteddfod, S4C and Radio Cymru, and a new course which provides a transition between Clwb Cwtsh and Welsh for the Family courses.
Learn Welsh Cardiff	Flying Start; Cymraeg i Blant/Cymraeg for Kids; Oasis Cardiff; Tŷ'r Cymry; and others.	Target families in disadvantaged areas of Cardiff, refugees and asylum seekers with a range of Learn Welsh courses, including courses for women only and residential courses.
Learn Welsh North East	Mudiad Meithrin.	Provide transition courses between Clwb Cwtsh and Welsh for the Family courses.
Learn Welsh Ceredigion-Powys-Carmarthenshire	Ceredigion and Powys County Councils; Mudiad Meithrin.	Offer a range of courses and informal learning events for families.
Learn Welsh North West	Local authorities; Menteriau Iaith; Mudiad Meithrin; the Urdd; Flying Start; Siarter Iaith; Cymraeg i Blant/Cymraeg for Kids S4C; Gisda.	Semi-formal and informal learning sessions for families with 'Sadyrnau i'r Teulu' (Saturdays for the Family).
Learn Welsh The Vale	Menter Bro Morgannwg; the Urdd; Mudiad Meithrin; Vale of Glamorgan Adult Learning; Vale of Glamorgan Welsh-medium Schools.	Attract more parents in the Vale to learn Welsh, and extend opportunities for families to use the Welsh language, by holding informal 'Clwb Ni' sessions, which are also beneficial for children.

## Amcan Strategol 4:

Codi proffil y maes a chynyddu'r niferoedd sy'n dechrau cyrsiau ac sy'n parhau i ddysgu'r Gymraeg.



- ▶ Safle Rhyngweithiol
- ▶ Fframwaith Digidol
- ▶ Codi Hyder

### Safle Rhyngweithiol

Y Safle Rhyngweithiol – [dysgucymraeg.cymru](http://dysgucymraeg.cymru) – yw wyneb cyhoeddus gwaith y Ganolfan, ac mae wrth galon ei gwasanaeth i'r dysgwyr. Mae'r gwaith o'i ddatblygu a'i fireinio yn parhau. Mae niferoedd y defnyddwyr wedi cynyddu'n sylweddol, flwyddyn ar flwyddyn, wrth i'r Safle ddod yn gartref i gyrsiau ar-lein Cymraeg Gwaith, adnoddau digidol niferus, newyddion a gwybodaeth, ac wrth i'r darparwyr cwrs ddatblygu eu defnydd o'r Safle a chyhoeddi'r rhaglen addysgu flynyddol.

### Fframwaith Digidol

Mae sefydlu'r Safle Rhyngweithiol wedi bod yn rhan allweddol o Fframwaith Digidol y Ganolfan, sy'n gosod cyfeiriad i waith digidol y sector Dysgu Cymraeg, gan ddilyn yr egwyddorion canlynol:

- ▶ Arloesi.
- ▶ Cynnig ystod o gyfleoedd i ddysgwyr ddysgu'n ddigidol.
- ▶ Darganfod dulliau newydd o helpu dysgwyr i ddysgu Cymraeg yn ddigidol.

Bydd y Ganolfan yn sicrhau bod gweithgareddau digidol yn cael eu hystyried ymhob rhan o'i gwaith a bydd yn ymgynghori yn gyson gyda'i darparwyr cwrs, er mwyn ennyn syniadau creadigol. I'r dyfodol, byddwn yn troi ein golygon at lunio cyrsiau cyfunol, sy'n defnyddio gweithgaredd ar-lein sylweddol i gefnogi'r dysgu wyneb-yn-wyneb.



## Strategic Objective 4:

Raise the profile of the sector and increase the numbers who start courses and continue to learn Welsh.



- ▶ Interactive Site
- ▶ Digital Framework
- ▶ Building Confidence

### Interactive Site

The Interactive Site – [learnwelsh.cymru](http://learnwelsh.cymru) – is the public face of the Centre's work, and is at the heart of its service for learners. The Centre continues to develop and refine the Site. The number of users has increased significantly year on year, as the Site plays host to Work Welsh online courses, numerous digital resources, news and information, and as the course providers develop their use of the Site and publish the annual teaching programme.

### Digital Framework

Establishing the Interactive Site has been a key part of the Centre's Digital Framework, which provides direction for the Learn Welsh sector's digital approach, based on the following principles:

- ▶ Innovation.
- ▶ Offering a range of opportunities for learners to learn digitally.
- ▶ Identifying new methods to help learners learn Welsh digitally.

The Centre will ensure that digital activities are considered in all aspects of its work and will consult regularly with its course providers, in order to develop creative ideas. For the future, we will look at creating blended learning courses, which use significant online activity to support face-to-face learning.

## Codi Hyder

### Ymchwil: dysgu er mwyn defnyddio

Mae magu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cymunedau lleol yn flaenoriaeth i siaradwyr Cymraeg rhugl a rhai nad sy'n rhugl, yn ôl ymchwil newydd wedi'i gwblhau gan gwmni Beaufort ar ran y Ganolfan.

Mae dau draean (66%) o siaradwyr rhugl a rhai nad sy'n rhugl yn dweud eu bod eisiau magu hyder i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau pob dydd - mewn ysgolion, siopau, llyfrgelloedd, tafarndai ac yn y blaen. Mae'r ffigwr yn cynyddu i 81% ymhliith pobl 16-34 oed. Mae'r ffigwr hefyd yn uwch - 75% - ymhliith pobl gyda phlant yn byw yn y cartref.

Mae magu hyder i ddefnyddio'r iaith wrth fynychu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg megis gigs cerddoriaeth hefyd yn flaenoriaeth i 65% o siaradwyr rhugl a rhai nad sy'n rhugl. Eto, mae'r canrannau yn uwch ymhliith pobl iau (78%) a phobl gyda phlant yn byw yn y cartref (70%).

Mae'r ymchwil yn dangos bod cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i bobl i gryfhau eu Cymraeg hefyd yn bwysig, gyda dosbarthiadau Cymraeg yn y gymuned, dysgu ar-lein a mentora gan siaradwyr rhugl yn ddulliau poblogaidd.

Mae'r data newydd yn cefnogi pwyslais y Ganolfan ar ddysgu yn y gymuned, menter ddigidol a chynlluniau arbennig megis 'Cymraeg Gwaith' a 'Siarad'.

Mae'r ymchwil yn helpu'r Ganolfan i adnabod cynulleidfa oedd targed o blith darpar ddysgwyr a bydd yn llywio prosiectau'r Ganolfan i'r dyfodol, gan gynnwys cynllun hyfforddi a chymhwyster ar gyfer tiwtoriaid a chwrs ar-lein 'Gwella eich Cymraeg'.

### Ymgyrch farchnata genedlaethol

Mae'r ymchwil hefyd wedi ysbrydoli ymgyrch reciwtio ddiwedda'r Ganolfan.

Mae'r ymgyrch yn cynnwys tair hysbyseb fideo gyda naws gymunedol - mae un wedi ei lleoli mewn caffi, yr ail mewn gig cerddoriaeth a'r drydedd mewn mabolgampau ysgol. Mae'r fideos yn cael eu darlleu ar Iwyfannau teledu ac ar-lein; defnyddir lluniau llonydd mewn safleoedd awyr agored hefyd.

### Cefnogi ymgyrchoedd

Cefnogodd y Ganolfan ymgyrch Dydd Miwsig Cymru Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2019 trwy gomisiynu rhaglen radio wedi'i chyflwyno gan ddysgwyr a ddarllewyd ar wefan **Cymru.fm** a BBC Radio Cymru 2. Crëwyd fideo gerddoriaeth o ddysgwyr o bob rhan o'r wlad yn canu 'Tŷ ar y Mynydd' gan y band Maharishi.

Cydweithiodd y Ganolfan a'i darparwyr cwrs gyda'r Sefydliad Dysgu a Gwaith i hyrwyddo Wythnos Addysg Oedolion a'r gwobrau Ysbrydoli! flynyddol.



## Building Confidence

### Research: learning in order to use the language

Developing the confidence to use Welsh in local communities is a priority for fluent Welsh speakers and those who aren't fluent, according to new research carried out by Beaufort on behalf of the Centre.

Two thirds (66%) of fluent speakers and those who aren't fluent say that they want to develop confidence to use the language in their everyday lives - in schools, shops, libraries, pubs, and so on. This figure increases to 81% among respondents aged 16-34. The figure is also higher - 75% - among people with children living at home.

Developing confidence to use the language while attending Welsh medium activities such as music gigs is also a priority for 65% of fluent Welsh speakers and those who aren't fluent. Once again, the percentages are higher among younger people (78%) and people with children living at home (70%).

Research shows that offering a range of opportunities for people to improve their Welsh is also important, with Welsh classes in the community, online learning and mentoring by fluent speakers being popular methods.

The new data supports the Centre's emphasis on learning in the community, digital innovation and specific schemes such as 'Work Welsh' and 'Siarad'. The research helps the Centre identify prospective learners and will inform the Centre's projects to the future, including a training scheme and qualification for tutors and an online course 'Improve your Welsh'.

### National marketing campaign

The research has also inspired the Centre's most recent recruitment campaign.

The campaign includes three video advertisements set in community settings - one in a cafe, the second in a music gig and the third in a school sports day. The videos are broadcast on TV and online platforms; stills are also used in outdoor locations.

### Supporting campaigns

The Centre supported the Welsh Government's Dydd Miwsig Cymru/Welsh Language Music Day in February 2019 by commissioning a radio programme presented by learners broadcast on the **Cymru.fm** website and on BBC Radio Cymru 2. The Centre also produced a music video of learners. From all parts of the country singing 'Tŷ ar y Mynydd' by the band Maharishi.

The Centre and its course providers worked with the Learning and Work Institute in promoting Adult Learners' Week and the annual Inspire! Awards.

# Amcan Strategol 5:

Sefydlu a chynnal gweithdrefnau i gefnogi'r gwasanaeth.



- ▶ Dweud eich Dweud
- ▶ Llywodraethiant
- ▶ Cyllideb
- ▶ Staffio

## Dweud eich Dweud

Am y tro cyntaf, cymerodd pob un o'r darparwyr cwrs ran yn yr holiadur cywain barn cenedlaethol, sef 'Dweud eich Dweud'.

Bu dysgwyr ar draws Cymru'n cwblhau holiadur ar-lein i fesur eu boddhad ar wahanol agweddau ar y gwasanaeth am chwe wythnos yn ystod misoedd Ionawr a Chwefror 2019. Dewiswyd yr amserlen er mwyn i'r dysgwyr allu mynegi barn yn seiliedig ar dystiolaeth ac eto'n gadael i'r darparwyr ymateb i'r dysgwyr o fewn yr un flwyddyn academaidd.

Cwblhaodd 3,861 o ddysgwyr yr holiadur. Dyma grynhoi'r prif ganfyddiadau:

- ▶ Mae 95% yn mwynhau dysgu'r Gymraeg.
- ▶ Mae 87% yn dweud eu bod yn cael profiad dysgu sy'n dda neu'n dda iawn.

# Strategic Objective 5:

Establish and maintain service support procedures.



- ▶ Have Your Say
- ▶ Budget
- ▶ Governance
- ▶ Staffing

## Have Your Say

For the first time, all course providers took part in the national questionnaire, 'Have Your Say'.

Learners throughout Wales were given the opportunity to complete an online questionnaire to measure their satisfaction with various aspects of the service for six weeks during January and February 2019. This timetable was chosen to enable learners to express their views based on evidence and also to enable the providers to respond to the learners within the same academic year.

3,861 learners completed the questionnaire. This is a summary of the main findings:

- ▶ 95% enjoy learning Welsh.
- ▶ 87% rate their learning experience as being good or very good.

- ▶ 85% feel more confident speaking Welsh due to the course.
- ▶ 79% think that the registration process was easy.
- ▶ 84% use their Welsh outside the classroom.
- ▶ Only 2% say that they don't intend to return to a class next year.

All the providers have received a quantitative report and qualitative comments and are responding to their learners on posters provided by the Centre. The Centre will use the findings as part of its quality structure, to monitor progress and identify improvements. The questionnaire will be held annually.



## Crynodeb o gyllideb y Ganolfan

Yn ystod y flwyddyn academaidd 2018-2019 derbyniodd y Ganolfan £1.9m tuag at y gwaith o roi arweiniad strategol i'r sector Dysgu Cymraeg a datblygu adnoddau cenedlaethol, a £8.8m i'w

ddosbarthu i'w darparwyr ledled Cymru. Yn ogystal, derbynwyd swm o £2.5m (Ebrill 2018-Mawrth 2019) tuag at y cynllun Cymraeg Gwaith.

## Crynodeb o gyllideb pob darparwr ar gyfer y flwyddyn academaidd 2018-2019.

Brand Lleol	Sefydliad	Swm
Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin	Prifysgol Bangor	£1,557,580
Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain	Coleg Cambria/Popeth Cymraeg	£1,066,320
Dysgu Cymraeg Ceredigion - Powys - Sir Gâr	Prifysgol Aberystwyth	£1,199,440
Dysgu Cymraeg Sir Gâr	Cyngor Sir Gâr	£150,000
Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe	Prifysgol Abertawe	£873,271
Dysgu Cymraeg Sir Benfro	Cyngor Sir Benfro	£330,999
Dysgu Cymraeg Gwent	Coleg Gwent	£1,156,465
Dysgu Cymraeg Y Fro	Cyngor Bro Morgannwg	£308,840
Dysgu Cymraeg Caerdydd	Prifysgol Caerdydd	£983,420
Dysgu Cymraeg Morgannwg	Prifysgol De Cymru	£1,013,665
Dysgu Cymraeg Nant Gwrtheyrn	Canolfan Nant Gwrtheyrn	£170,000

## Summary of the Centre's budget

During the academic year 2018-2019 the Centre received £1.9m towards the work of providing strategic direction for the Learn Welsh sector and developing national resources, and £8.8m for

distribution to the Centre's providers across Wales. In addition, the sum of £2.5m (April 2018-March 2019) was awarded to the Work Welsh programme.

## Budget summary for each provider for the academic year 2018-2019.

Local brand	Institution	Allocation
Learn Welsh North West	Bangor University	£1,557,580
Learn Welsh North East	Coleg Cambria/Popeth Cymraeg	£1,066,320
Learn Welsh Ceredigion - Powys - Carmarthenshire	Aberystwyth University	£1,199,440
Learn Welsh Carmarthenshire	Carmarthenshire County Council	£150,000
Learn Welsh Swansea Bay Region	Swansea University	£873,271
Learn Welsh Pembrokeshire	Pembrokeshire County Council	£330,999
Learn Welsh Gwent	Coleg Gwent	£1,156,465
Learn Welsh The Vale	Vale of Glamorgan Council	£308,840
Learn Welsh Cardiff	Cardiff University	£983,420
Learn Welsh Glamorgan	University of South Wales	£1,013,665
Learn Welsh Nant Gwrtheyrn	Nant Gwrtheyrn Welsh Language and Heritage Centre	£170,000

## Llywodraethiant

Cwmni Cyfyngedig dan warant a heb gyfalaf cyfrannau yw'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Unig aelod y cwmni o dan y Memorandwm Cymdeithasu yw Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Penodwyd Bwrdd Cyfarwyddwyr, sef:

Enw	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Gorffen	
Yr Hybarch Randolph Thomas	6.01.2016	-	
Maria Stedman	6.01.2016	-	
Eifion Griffiths	6.01.2016	-	
Dr Haydn E Edwards	20.4.2016	15.07.2017	Wedi ymddiswyddo
Geraint Roberts	20.6.2019		

Heledd Jones yw Ysgrifennydd y Cwmni.

Mae agweddau cyfansoddiadol a chorfforaethol y Ganolfan yn gyfrifoldeb i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr. Bwrdd Cyfarwyddwyr Cwmni y Ganolfan sy'n sicrhau rheolaeth ariannol briodol a thryloyw ynghyd â rheolaeth risg gadarn a chyson. Bwrdd Cyfarwyddwyr y Ganolfan sy'n sicrhau perfformiad yn erbyn prif ddangosyddion perfformiad corfforaethol y Cwmni.

O dan Erthyglau Cymdeithasu y Cwmni, sefydlwyd Bwrdd Ymgynghorol y Ganolfan.

Swyddogaeth y Bwrdd Ymgynghorol o dan yr Erthyglau Cymdeithasu yw sicrhau bod y Ganolfan:

- ▶ yn cyflawni ei hamcanion strategol o ran y sector Dysgu Cymraeg trwy weddnewid y ddarpariaeth i ddysgwyr.
- ▶ yn cyflenwi gwasanaethau i'r sector Dysgu Cymraeg yn unol â'r weledigaeth a'r blaenoriaethau a gyflwynwyd yn y cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru.
- ▶ yn cytuno ar dargedau cenedlaethol ar gyfer y maes.

## Governance

The National Centre for Learning Welsh is a Company Limited by guarantee without share capital.

The only member of the company under the Articles of Association is the University of Wales Trinity Saint David.

A Board of Directors has been appointed:

Name	Start Date	End Date	
The Venerable Randolph Thomas	6.01.2016	-	
Maria Stedman	6.01.2016	-	
Eifion Griffiths	6.01.2016	-	
Dr Haydn E Edwards	20.4.2016	15.07.2017	Resigned
Geraint Roberts	20.6.2019		

The Company Secretary is Heledd Jones.

The corporate and constitutional aspects of the Centre are the responsibility of the Board of Directors. The Board of Directors ensures appropriate and transparent financial management, together with robust and consistent risk management. The Board of Directors ensures performance against the Company's main corporate performance indicators.

Under the Company's Articles of Association, the Centre's Advisory Board was appointed.

The role of the Advisory Board under the Articles of Association is to ensure that the Centre:

- ▶ meets its strategic objectives for the Learn Welsh sector by transforming the provision for learners.
- ▶ delivers services to the Learn Welsh sector in line with the vision and priorities presented in the successful bid to the Welsh Government.
- ▶ agrees national targets for the sector.



Aelodau'r Bwrdd Ymgynghorol  
Advisory Board Members

Enw/ Name	Dyddiad Cychwyn/ Start Date	Dyddiad Gorffen/ End Date	
Dr Haydn E Edwards	01.1.2015	31.12.2018	
Rheon Tomos	07.11.2018	06.11.2021	
Tim Hartley	01.4.2016	31.3.2020	
Owain Gruffydd	01.4.2016	31.3.2022	
Ann Hughes	01.4.2016	31.3.2019	
Ann Jones	01.4.2016	31.3.2019	
Merfyn Morgan	01.4.2016	31.3.2019	
Nia Parry	01.4.2019	31.3.2022	
Dr Jonathan Morris	01.9.2017	31.8.2020	
Huw Dylan Owen	01.9.2017	5.6.2019	Wedi ymddiswyddo/ Resigned
Sharon Warren	01.4.2019	31.3.2022	
Helen Williams	01.4.2019	31.3.2022	

Mae gwaith y Ganolfan hefyd yn cael ei archwilio gan Bwyllgor Craffu annibynnol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru. Aelodau'r Pwyllgor Craffu yw:

- ▶ Steve Morris (Cadeirydd)
- ▶ Anna Skalistira-Bakratseva
- ▶ Dr Helen Barlow
- ▶ Richard Houdmont

## Staffio

O dan arweiniad y Prif Weithredwr, mae'r Ganolfan wedi'i rhannu'n dair cyfarwyddiaeth. Y Gyfarwyddiaeth Dysgu ac Addysgu sy'n gyfrifol am agweddau cwricwlaidd; y Gyfarwyddiaeth Cynllunio a Datblygu sy'n gyfrifol am gyllid a systemau rheoli perfformiad a phrosiectau amrywiol, gan gynnwys Cymraeg Gwaith, a'r Gyfarwyddiaeth Marchnata a Chyfathrebu sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r sector.

The Centre's work is also examined by an Independent Scrutiny Committee set up by the Welsh Government. The Scrutiny Committee's members are:

- ▶ Steve Morris (Chair)
- ▶ Anna Skalistira-Bakratseva
- ▶ Dr Helen Barlow
- ▶ Richard Houdmont

## Staffing

Led by the Chief Executive, the Centre is divided into three directorates. The Teaching and Learning Directorate is responsible for curricular aspects; the Planning and Development Directorate is responsible for finance and performance management systems and special projects, including Work Welsh, and the Marketing and Communications Directorate is responsible for promoting the sector.





## ► Ystadegau Dysgu Cymraeg

### Cefndir

Mae data'r rhaglen Dysgu Cymraeg yn cael eu rheoli gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Mae cronfa ddata ganolog yn casglu gwybodaeth gan bob dysgwyr wrth iddynt gofrestru i fynychu cwrs. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys manylion am y dysgwyr (e.e. enw, cyfeiriad, dyddiad geni) a'r cwrs (lefel, lleoliad, dwyster y dysgu).

Mae'r data sy'n cael eu casglu gan y Ganolfan yn wahanol i'r data a gasglwyd ar gyfer y sector yn y gorffennol. Mae'r dull o gasglu'r data hefyd yn wahanol.

### Cyhoeddi Data 2017-2018

Yn dilyn rhoi Cynllun Rheoli Data y Ganolfan ar waith, y flwyddyn lawn gyntaf o ddata sydd gan y Ganolfan i'w rhannu yw data ar gyfer y flwyddyn academaidd 2017-2018 (1 Awst 2017-31 Gorffennaf 2018).

Dyma grynodeb – cyhoeddir yr ystadegau yn llawn ar wefan [Llywodraeth Cymru](#).

### Niferoedd y dysgwyr unigryw

Mae 'niferoedd y dysgwyr unigryw' yn cyfrif pob dysgwyr unwaith yn unig, faint bynnag o gyrsiau maent wedi eu dilyn yn ystod y flwyddyn. Yn 2017-2018 roedd cyfanswm o **12,680** o ddysgwyr unigryw.

Dyma'r **gwaelodlin cenedlaethol** ar gyfer y sector. O fan cychwyn y trefniadau newydd hyn, bydd modd gwneud cymriaethau blwyddyn ar flwyddyn.

### Gweithgareddau dysgu

Gall dysgwyr fynychu mwy nag un gweithgaredd dysgu ar lefel neu ddwyster gwahanol yn ystod y flwyddyn. Er enghraift, gall dysgwyr unigol fynychu cwrs 170-259 awr ar lefel Mynediad yn ogystal â chwrs 'fesul awr' ar lefel Sylfaen yn ystod y cyfnod. Cyfrifir hyn fel dau weithgaredd dysgu.

Yn 2017-2018 cymerodd y dysgwyr ran mewn **19,490** o weithgareddau dysgu.



## ► Learn Welsh Statistics

### Background

Learn Welsh programme data is managed by the National Centre for Learning Welsh.

A central database collects information on all learners as they register online to follow a course. This information includes details about the learner (e.g. name, address, date of birth) and the course (e.g. level, location, learning intensity).

The data collected by the Centre differs to the data collected for the sector in the past. The method of collecting the data is also different.

### Publishing data for 2017-2018

Following the implementation of the Centre's Data Management Plan, the first full year of data available to share is for the 2017-2018 academic year (1 August 2017-31 July 2018).

A summary follows – the statistics are published in full on the [Welsh Government](#) website.

### Number of unique learners

The 'number of unique learners' counts every learner only once, regardless of the number of courses they have attended during the year. In 2017-2018 there was a total of **12,680** unique learners.

This is a **national baseline** for the sector. It will be possible to make year-on-year comparisons from the baseline established under this new structure.

### Learning activities

Learners can attend more than one learning activity at various levels and intensities during the year. For example, a single learner can attend a 170-259 hour course at Entry level as well as a 'per hour' course at Foundation level during the period in question. This is considered as two learning activities.

In 2017-2018 learners took part in **19,490** learning activities.

### Learning levels

Learning opportunities are offered at **five levels** within the Learn Welsh programme.

In 2017-2018 **51%** were at Entry level. Entry is the first level for beginners. 18% were at Foundation level with 31% at Intermediate or Advanced levels (including Proficiency).

### Learning intensity

Learning opportunities are offered at five levels of intensity within the Learn Welsh programme. 'Intensity' is defined according to the tutor-guided contact hours. This provides flexibility for learners to choose a course that best meets their needs.

In 2017-2018 **42%** of opportunities delivered courses between 50 and 79 hours.

One of the Centre's strategic objectives is to offer more intensive learning opportunities, which enable learners to learn the language more quickly.

In 2017-2018 **12%** of these opportunities delivered more than 110 hours of learning.

### Future data

The Centre will publish data for the Learn Welsh sector on an annual basis. It will be possible to make year-on-year comparisons from the new baseline published above.



### Cysylltwch â ni:

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol  
Heol y Coleg  
Caerfyrddin SA31 3EP

Ffôn: 0300 3234324  
[swyddfa@dysgucymraeg.cymru](mailto:swyddfa@dysgucymraeg.cymru)

[dysgucymraeg.cymru](http://dysgucymraeg.cymru)  
[learnwelsh.cymru](http://learnwelsh.cymru)

@learnycymraeg  
 Dysgu Cymraeg - learnwelsh

### Contact us:

National Centre for Learning Welsh  
College Road  
Carmarthen SA31 3EP

Telephone: 0300 3234324  
[office@learnwelsh.cymru](mailto:office@learnwelsh.cymru)

[dysgucymraeg.cymru](http://dysgucymraeg.cymru)  
[learnwelsh.cymru](http://learnwelsh.cymru)

@learnycymraeg  
 Dysgu Cymraeg - learnwelsh

